[F1 ATODLEN 3A

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 3 Dros Dro

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Atod. 3A wedi ei fewnosod (27.3.2021 yn union cyn dechrau'r diwrnod) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021 (O.S. 2021/413), rhlau. 1(2), **2(4)**

# [F2 RHAN 4

## Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Atod. 3A para. 5A wedi ei fewnosod (26.4.2021 yn union cyn dechrau'r diwrnod) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 (O.S. 2021/502), rhlau. 1(2), **2(15)(e)**

PENNOD 1

*Busnesau a gwasanaethau y mae'n ofynnol cau eu mangreoedd ond y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt*

### Cau [F3 mangreoedd o dan do] busnesau bwyd a diod

**7.**—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 12 i 14 (busnesau bwyd a diod)—

(a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw [F4 ran o'i fangre sydd o dan do ac a ddefnyddir i fwyta bwyd neu i yfed diod], a

F5(b) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

(a) defnyddio mangre ar gyfer—

(i) gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre, neu

(ii) gwasanaethau sy'n darparu bwyd neu ddiod i bobl ddigartref;

(b) darparu gwasanaeth ystafell mewn gwesty neu lety arall (pan fo'r gwesty neu'r llety arall yn parhau i weithredu yn unol â'r eithriadau a ganiateir gan baragraff 8);

(c) ffreutur yn y gweithle rhag bod ar agor pan na fo dewis ymarferol arall i staff yn y gweithle hwnnw gael bwyd neu ddiod;

[F6(ca) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y gofynnir amdano neu a awdurdodir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol;]

(d) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach.

(3) At ddibenion is-baragraff (1), mae ardal o dan do sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddau yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel pe bai'n rhan o fangre'r busnes hwnnw.

(4) Pan—

(a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a

(b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.**]]**

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Geiriau yn Atod. 3A para. 7 pennawd wedi eu mewnosod (26.4.2021 am 6.00 a.m.) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 (O.S. 2021/502), rhlau. 1(4), **2(15)(f)(i)**

**F4** Geiriau yn Atod. 3A para. 7(1)(a) wedi eu hamnewid (26.4.2021 am 6.00 a.m.) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 (O.S. 2021/502), rhlau. 1(4), **2(15)(f)(ii)(aa)**

**F5** Atod. 3A para. 7(1)(b) wedi ei hepgor (26.4.2021 am 6.00 a.m.) yn rhinwedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 (O.S. 2021/502), rhlau. 1(4), **2(15)(f)(ii)(bb)**

**F6** Atod. 3A para. 7(2)(ca) wedi ei fewnosod (12.4.2021) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021 (O.S. 2021/457), rhlau. 1(2), **2(16)(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– Regulations applied (temp.) by S.I. 2022/126 reg. 12(2)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:**

Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

– Sch. 1 para. 2(5)(ka)(i) substituted by S.I. 2021/862 reg. 2(4)(b)(v)(cc)(ii)
– Sch. 4 para. 2(4)(i)(ii) inserted by S.I. 2021/583 reg. 2(15)(b)(ii)
– reg. 16A(9)(b)(i)(bb) word omitted by S.I. 2021/1291 reg. 9(4)(b)